HORIZON
NUCLEAR POWER

WYLFA NEWYDD

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

# Wylfa Newydd Project

## 8.20 Welsh Language Impact Assessment Non-Technical Summary (Welsh language)

PINS Reference Number: EN010007

**Application Reference Number: 8.20**

June 2018

Revision 1.0

Regulation Number: 5(2)(q)

Planning Act 2008
Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

Horizon Internal DCRM Number: WN0902-CPN-PAC-REP-00002_Welsh

[This page is intentionally blank]

# Cynnwys


1 Cyflwyniad ... 1
2 Prosiect Wylfa Newydd ... 2
2.1 Prosiect Wylfa Newydd ... 2
3 Proses yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ... 4
3.1 Pwrpas yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ... 4
3.2 Ymgynghori ... 4
*Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ... 4*
*Gweithgareddau ymgynghori ... 4*
3.3 Sut cynhaliwyd yr asesiad? ... 6
*Ymgynghori ynghylch y fethodoleg ... 6*
*Beth mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn ei ystyried ... 6*
*Ardaloedd astudiaeth yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ... 7*
*Datblygu mesurau lliniaru a gwella ... 13*
4 Effeithiau ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ... 14
4.2 Effeithiau manteisiol ... 14
*Cyflogaeth, sgiliau ac addysg ... 14*
*Nodweddion y boblogaeth ... 14*
*Buddsoddi a gwario yn yr economi leol ... 15*
*Gwasanaethau cymunedol a lleol ... 15*
*Agweddau cymdeithasol a diwylliannol ... 15*
4.3 Effeithiau niweidiol ... 16
*Y gweithlu adeiladu ... 16*
*Busnesau lleol ... 16*
*Prisiau tai ... 17*
*Cyflenwad seilwaith ac addysg ... 17*
*Agweddau cymdeithasol a diwylliannol ... 17*
*Amwynder amgylcheddol ... 18*
5 Mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ... 19
5.2 Effeithiau manteisiol ... 19
*Ymrwymiadau o ran gwella ... 20*
5.3 Effeithiau niweidiol ... 22
*Ymrwymiadau o ran lliniaru ... 22*
5.4 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella ... 24
5.5 Atebolrwydd ar gyfer mesurau lliniaru a gwella ... 45
6 Beth nesaf? ... 51

# Rhestr o’r Tablau

Tabl 5-1 Crynodeb o’r mesurau lliniaru a gwella sy’n ymwneud â’r gweithlu............ 25
Tabl 5-2 Crynodeb o’r mesurau lliniaru a gwella sy’n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd .......................................................................................... 37
Tabl 5-3 Crynodeb o’r mesurau lliniaru a gwella sy’n ymwneud â gwasanaethau cymunedol a lleol ............................................................................... 41
Tabl 5-4 Crynodeb o’r mesurau lliniaru a gwella sy’n ymwneud ag atebolrwydd ..... 47

# Rhestr o’r Ffigurau

Ffigur 3-1 Ardaloedd astudiaeth yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.............. 11

# 1 Cyflwyniad

1.1.1 "*Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r Gymraeg ac rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu Prosiect Wylfa Newydd mewn ffordd sy'n parchu pwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant mewn cymunedau lleol.*" Greg Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol - Gweithrediadau Horizon.

1.1.2 Mae gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, ac mae'n ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Horizon yn llwyr ymwybodol o'i ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r amser ac yng nghyswllt Prosiect Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) Wylfa Newydd.

1.1.3 Mae Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg rhugl a'u cymunedau lle mai Cymraeg yw'r brif iaith sy'n cael ei siarad. Mae Ynys Môn a Gwynedd yn gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yng Nghymru. Mae gan Ynys Môn yr ail gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae'r gyfran uchaf yng Ngwynedd. Mae Horizon yn cydnabod bod y Gymraeg a'i diwylliant yn elfennau annatod o wead cymdeithasol y cymunedau hyn a'u bod yn rhan ganolog o'r ymdeimlad o hunaniaeth sydd gan lawer o bobl.

1.1.4 Mae Horizon yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg, ac mae'n hyrwyddo defnyddio'r iaith yng nghymunedau Prif Ardaloedd yr Astudiaeth Economaidd-Gymdeithasol ac ymysg ei weithlu.

1.1.5 Mae'n rhaid i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol fel Prosiect DCO Wylfa Newydd gydymffurfio â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol. Un o'r gofynion polisi hyn ydy cwblhau asesiad i ddeall sut gallai'r prosiect effeithio ar yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i thraddodiadau - gelwir hyn yn Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2). Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn ddogfen ar wahân sy'n cael ei chyflwyno fel rhan o'r cais am gydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd. Caiff canfyddiadau'r asesiad o effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant eu disgrifio yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2). Mae'r ddogfen hon yn grynodeb annhechnegol o'r asesiad hwnnw (Cyfeirnod y Cais: 8.21).

# 2 Prosiect Wylfa Newydd

## 2.1 Prosiect Wylfa Newydd

2.1.1 Mae Horizon yn cynnig adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, sy'n cynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd, y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu a'r Gwaith Galluogi. Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu disgrifio isod. Bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael cydsyniad o dan DCO a bydd y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cael cydsyniad o dan Drwydded Forol. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y naill a'r llall; bydd y Gwaith Morol (gweler isod) yn cael cydsyniad o dan y DCO a'r Drwydded Forol.

### Prosiect DCO Wylfa Newydd

2.1.2 Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys y rhannau hynny o Brosiect Wylfa Newydd a fydd yn cael cydsyniad drwy DCO, sef:

**Y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol**

- Yr Orsaf Bŵer: gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, gan gynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau, adeiladau, strwythurau ac offer cefnogol, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a'r Cysylltiad â'r Grid;
- datblygiadau eraill ar y safle: gan gynnwys gwaith tirweddu a phlannu, draeniau, systemau rheoli dŵr wyneb, gwaith mynediad i'r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol, Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffyrdd mewnol y safle, meysydd parcio, gwaith a gweithgareddau adeiladu gan gynnwys compowndiau adeiladu ac ardaloedd parcio dros dro, ardaloedd gosod, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro, ardal dros dro i wylio'r gwaith adeiladu, dargyfeirio cyfleustodau, ffens y ffin a ffensys adeiladu a chysylltiadau trydan;
- Gwaith Morol sy'n cynnwys:
  - Gwaith Morol Parhaol: y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu'r lan, mannau gollwng draeniau dŵr wyneb, man gollwng carthffrwd dŵr gwastraff (a draeniau cysylltiedig dŵr wyneb a charthffrwd dŵr gwastraff i'r môr), system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a Charthu;
  - Gwaith Morol Dros Dro: argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, mannau gollwng dros dro ac angorfa dros dro i gychod camlas;

- Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: sy'n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol;

**Datblygiadau Cysylltiedig**

- Campws y Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu (Parcio a Theithio);
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi (Canolfan Logisteg);
- y Newidiadau i Briffordd yr A5025;
- Gwaith i greu a gwella cynefinoedd gwlyptir i wneud iawn am unrhyw effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof yn y safleoedd canlynol:
  - Tŷ Du;
  - Cors Gwawr;
  - Cae Canol-dydd

2.1.3 Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio wrth ddisgrifio'r ardaloedd daearyddol sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd a'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu:

- Safle'r Orsaf Bŵer – yr ardaloedd dangosol o dir a môr lle byddai'r rhan fwyaf o'r Orsaf Bŵer barhaol, Gwaith Morol a datblygiadau eraill ar y safle; ac
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd – yr ardaloedd dangosol o dir a môr gan gynnwys Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardaloedd cyfagos a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer, y Gwaith Morol, Campws y Safle a datblygiadau eraill ar y safle (Datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd).

### Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu

2.1.4 Mae'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cynnwys y Gwaith Morol a gwaredu'r deunyddiau ar ôl y gwaith Carthu yn y Safle Gwaredu.

### Gwaith Galluogi

2.1.5 Mae'r Gwaith Galluogi yn cynnwys y Cynigion ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle a'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025.

2.1.6 Mae Horizon wedi cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer y Gwaith Galluogi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i Gyngor Sir Ynys Môn.

2.1.7 Er mwyn cynnal hyblygrwydd yn y broses gydsynio ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae'r Cynigion Paratoi a Chlirio'r Safle hefyd wedi cael eu cynnwys yn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Nid ydy'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025 yn rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

# 3 Proses yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

## 3.1 Pwrpas yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

3.1.1 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn helpu i nodi'r effeithiau niweidiol a manteisiol a ragwelir ar y Gymraeg a'i diwylliant, o ganlyniad i Brosiect DCO Wylfa Newydd, a hynny yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Mae hefyd yn edrych ar sut gallai effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd amrywio mewn gwahanol gymunedau ac ardaloedd daearyddol, a elwir yn ardaloedd yr astudiaeth. Pan fydd effeithiau niweidiol yn cael eu nodi, bydd mesurau'n cael eu cynnig i leihau neu osgoi (lliniaru) yr effaith honno ar y Gymraeg a'i diwylliant. Hefyd, pan fydd effeithiau manteisiol yn cael eu nodi, bydd mesurau'n cael eu cynnig i hyrwyddo'r effeithiau hynny; rydym yn galw'r rhain yn 'fesurau gwella'.

## 3.2 Ymgynghori

### *Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg*

3.2.1 Mae Horizon wedi sefydlu Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gyda chadeirydd annibynnol i arwain proses yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a sicrhau bod rhanddeiliaid lleol yn cael cyfrannu at y broses honno. Mae Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyngor ar sut dylid cynnal gwaith asesu ac i adolygu dogfennau. Mae Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cynnwys cynrychiolwyr o Gynghorau Ynys Môn a Gwynedd, Menter Môn, Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a Llais Ni. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg hefyd yn arsylwi ar waith y Grŵp Llywio, ond nid ydynt yn aelodau.

### *Gweithgareddau ymgynghori*

3.2.2 Dyma grynodeb o'r gweithgareddau ymgynghori sydd wedi helpu gyda'r gwaith asesu a gyflwynir yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

#### Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un

3.2.3 Ochr yn ochr ag Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un Horizon, ymgynghorodd Horizon ar Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith, a oedd yn cyflwyno'r materion yr oedd Horizon wedi'u nodi'n berthnasol i'w hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2). Gofynnwyd am sylwadau ac adborth gan randdeiliaid allweddol yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un er mwyn helpu â'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2).

3.2.4 Paratowyd asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael yn ystod gaeaf 2015/16, a rhannwyd y wybodaeth hon â Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith

Gymraeg a Chyngor Sir Ynys Môn ym mis Ionawr 2016. Daeth sylwadau i law, a chafodd y rhain eu hystyried wrth baratoi Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg drafft a rannwyd fel rhan o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau Horizon.

3.2.5 Defnyddiwyd yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg drafft i ddatblygu mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella’r rhai manteisiol hefyd. Datblygwyd y mesurau hyn mewn ymgynghoriad â Grŵp Llywio’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, tîm Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Horizon, gan gynnwys arbenigwyr cynllunio iaith a rhanddeiliaid allanol eraill ym maes y Gymraeg a'i diwylliant.

### Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau

3.2.6 Yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau, mabwysiadodd Horizon Addewid Iaith Gymraeg i ddangos ymrwymiad i gefnogi’r Gymraeg a’i diwylliant wrth ddatblygu Prosiect DCO Wylfa Newydd.

3.2.7 Roedd Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn rhan o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau Horizon. Roedd hwn yn grynodeb i aelodau o’r cyhoedd, grwpiau cymunedol a grwpiau diddordeb iaith o brif effeithiau posibl Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg, ei diwylliant a’r gymuned, ar sail y gwaith asesu a oedd wedi cael ei wneud ar y pryd. Roedd y prif effeithiau’n cael eu nodi ar gyfer pob cam o Brosiect Wylfa Newydd, hy adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.

3.2.8 Nodwyd mesurau lliniaru a gwella cychwynnol yn Adroddiad Interim yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2). Roedd y sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau yn llywio ac yn galluogi datblygu’r mesurau lliniaru a gwella hyn ymhellach, mewn ymgynghoriad â Grŵp Llywio’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a rhanddeiliaid eraill ym maes y Gymraeg a’i diwylliant.

### Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri

3.2.9 Ym mis Mai 2017, cynhaliodd Horizon Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri ar gynigion eraill wedi’u diweddaru ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd. Roedd y dogfennau ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig i Brosiect DCO Wylfa Newydd ers Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau, gan gynnwys effeithiau wedi’u diweddaru ar y Gymraeg a’i diwylliant yn y Brif Ddogfen Ymgynghori. Roedd y sylwadau a ddaeth i law yn ystod Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Tri yn ymwneud yn bennaf â’r mesurau a gafodd eu cynnig fel rhan o’r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant. Mae’r rhain wedi bod yn sail i’r gwaith o ddatblygu’r mesurau sydd bellach wedi’u cynnwys.

3.2.10 Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad ar gael yn Adroddiad yr Ymgynghoriad a gyflwynwyd fel rhan o’r cais am gydsyniad datblygu.

## 3.3 Sut cynhaliwyd yr asesiad?

3.3.1 Mae lles yr iaith Gymraeg a’i diwylliant yn y dyfodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel newidiadau mewn poblogaeth, yr economi, cyfleoedd am swyddi, tai ac addysg. Mae’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2) yn dilyn dull sefydledig (fel y nodwyd yn yr arweiniad ar gynllunio a’r iaith Gymraeg).

### *Ymgynghori ynghylch y fethodoleg*

3.3.2 Cafodd y dull a ddefnyddiwyd ei gyflwyno yn yr Adroddiad Cwmpasu Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2) ac ymgynghorwyd arno ochr yn ochr ag Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un Horizon. Er bod ymatebion i ddogfennau eraill Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel rhan o wead cymdeithasol cymunedau Ynys Môn, ychydig iawn o ymatebion a ddaeth i law a oedd yn ymwneud yn benodol ag Adroddiad Cwmpasu’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith. Nid oedd unrhyw sylwadau yn awgrymu newidiadau i’r fethodoleg a’r cwmpas arfaethedig.

3.3.3 Daeth sylwadau i law yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau a oedd yn ymwneud â’r fethodoleg arfaethedig. Roeddent yn nodi’r angen i ystyried Canllawiau a Fframwaith Asesu Risg y Gymraeg Llywodraeth Cymru, sydd wrthi’n cael eu datblygu. Er nad yw’r gwaith hwn wedi’i gyhoeddi eto, mae canfyddiadau cychwynnol y gwaith o ddatblygu Canllawiau a Fframwaith Asesu Risg y Gymraeg wedi’u cyflwyno i Horizon ac i Grŵp Llywio’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

### *Beth mae’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn ei ystyried*

3.3.4 Mae’r asesiad o’r effeithiau ar yr iaith Gymraeg a’i diwylliant yn seiliedig ar y pum agwedd allweddol ganlynol o fywyd cymunedol, gyda golwg ar bennu effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y gymuned yn gyffredinol ac ar y Gymraeg a’i diwylliant yn fwy penodol.

- **Nodweddion y boblogaeth**: effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y boblogaeth leol (yn bennaf o ganlyniad i weithwyr adeiladu a gweithredu a’u teuluoedd yn symud i’r ardal), gan gynnwys cyfran y siaradwyr Cymraeg.
- **Ansawdd bywyd:** effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar ansawdd bywyd gan gynnwys iechyd pobl leol, pa mor ddymunol ydy byw yn yr ardal leol a’r potensial ar gyfer cynnydd mewn troseddu a thrais.
- **Yr Economi**: effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar fusnesau a chyflenwyr lleol, cyfleoedd ar gyfer creu swyddi a chyflogaeth, twristiaeth, tai a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac addysg.

- **Cyflenwad seilwaith ac addysg**: effaith gweithwyr adeiladu a gweithredu ar wasanaethau lleol gan gynnwys ysgolion, cyfleusterau gofal iechyd, gwasanaethau brys a chyfleusterau hamdden.
- **Cymdeithasol a diwylliannol**: sut gallai gweithwyr adeiladu a gweithredu a’u teuluoedd o’r tu allan i’r ardal (mae disgwyl y bydd cyfran uchel ohonynt yn ddi-Gymraeg) ddylanwadu ar y teimlad o gymuned leol ac o bosibl arwain at densiynau cymdeithasol; ac effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar ddiwylliant a thraddodiadau Cymru gan gynnwys grwpiau gwirfoddol ac ieuenctid.

3.3.5 Oherwydd gwahanol gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd, h.y. Ardal Datblygu Wylfa Newydd, datblygiadau eraill ar y safle, y Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig, mae’r asesiad o'r effeithiau’n cael ei rannu’n gydrannau penodol o Brosiect DCO Wylfa Newydd. Mae cyfres o asesiadau datblygu unigol sy’n canolbwyntio ar effeithiau ar y Gymraeg a’i diwylliant yn ategu’r gwaith o asesu’r effeithiau ar y prosiect cyfan. Mae’r asesiad o'r effeithiau wedi’i rannu’n ôl y cydrannau canlynol o Brosiect DCO Wylfa Newydd:

- Effeithiau’r prosiect cyfan (h.y. nid effeithiau sy’n benodol i ddatblygiad);
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Y Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer (h.y. Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol);
- Cyfleuster Parcio a Theithio;
- Newidiadau i Briffordd yr A5025;
- Canolfan Logisteg.

3.3.6 Mae’r asesiad ar gyfer pob un o gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd yn seiliedig ar 18 cwestiwn mewn rhestr wirio, sy’n berthnasol i’r pum agwedd o fywyd cymunedol. Mae’r cwestiynau hyn wedi dod o ganllawiau arfer gorau a oedd yn sail i’r fethodoleg.

3.3.7 Mae system bwysoli wedi cael ei defnyddio fel rhan o’r asesiad; mae pob cwestiwn yn y rhestr wirio wedi cael pwysoliad, sy’n amrywio o uchel i ganolig i isel (o ran effeithiau ar yr iaith Gymraeg a’i diwylliant). Defnyddir hyn i roi sgôr cyffredinol ar gyfer asesu pob cwestiwn. Yna, mae’r sgôr cyffredinol yn cael ei gyfrifo ar gyfer effeithiau cyffredinol pob un o gydrannau Prosiect DCO Wylfa Newydd.

### *Ardaloedd astudiaeth yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg*

3.3.8 Ymgynghorwyd ar ardaloedd yr astudiaeth a fyddai’n cael eu defnyddio er mwyn asesu’r effeithiau ar y Gymraeg a’i diwylliant yn ystod Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un ac Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau. Mae Grŵp

Llywio’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi cytuno ar yr ardaloedd hyn.

3.3.9 Cytunwyd y byddai’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2) yn edrych yn bennaf ar Ynys Môn, oherwydd mai dyma lle byddai'r rhan fwyaf o effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd yn digwydd. Fodd bynnag, mae’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hefyd wedi asesu rhannau o’r tir mawr gan fod ganddynt gysylltiadau economaidd ag Ynys Môn. Cyfeirir at yr ardal hon fel Tir Mawr Menai. Wrth ystyried effeithiau ar swyddi a gweithgarwch economaidd, defnyddir ardal astudiaeth ehangach, a elwir yn Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu).

3.3.10 Mae’r ardaloedd astudiaeth a ddefnyddiwyd yn cynnwys:


- **Ardal Datblygu Wylfa Newydd**: sy’n cynrychioli’r ardaloedd o dir a môr sy’n cael eu dangos gan gynnwys Safle’r Orsaf Bŵer, Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol Wylfa a’r ardaloedd cyfagos a fyddai’n cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu’r Orsaf Bŵer. Mae Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn wardiau Llanbadrig a Mechell.
- **Ardal dylanwad leol:** tua 5km o ganol Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Dewiswyd yr ardal hon i sicrhau bod yr effeithiau ar yr amgylchedd ffisegol (fel aer, sŵn ac effeithiau gweledol) – ac ar ansawdd bywyd yn cael sylw yn yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2).
- **Prif Ardal yr Astudiaeth:** dyma’r ardal sydd fwyaf tebygol o gael ei heffeithio – yn fanteisiol ac yn niweidiol – gan Brosiect DCO Wylfa Newydd. Mae’n cael ei diffinio gan ddwy Ardal Teithio i’r Gwaith: ‘Bangor, Caernarfon a Llangefni’ a ‘Chaergybi’. Mae'r ardal yn cael ei rhannu yn Gogledd Ynys Môn, Gorllewin Ynys Môn, De Ynys Môn a Thir Mawr Menai.
- **Ardal Teithio i’r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu):** mae’r ardal hon yn seiliedig ar daith yrru 90 munud o Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Ar sail yr asesiadau o'r elfennau economaidd-gymdeithasol (Cyfeirnod y Cais: 6.3.1) a thraffig a thrafnidiaeth (Cyfeirnod y Cais: 6.3.2) mae hwn yn amcangyfrif realistig o’r pellaf y byddai gweithwyr yn debygol o’i yrru un ffordd i’r gwaith ac yn ôl.
- **gogledd orllewin Cymru**: mae’r ardal hon yn cynnwys siroedd Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Mae’r ardal hon wedi cael ei defnyddio mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n bosibl cynrychioli prif ardal yr astudiaeth oherwydd cyfyngiadau o ran gwybodaeth ystadegol.
- **gogledd Cymru**: mae’r ardal hon yn cynnwys siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae’r ardal hon wedi cael ei defnyddio pan nad oedd yn bosibl cynrychioli'r ardal teithio i'r gwaith bob dydd (adeiladu) oherwydd cyfyngiadau o ran data. Mae effeithiau ar fusnesau a’r gadwyn gyflenwi yn ogystal ag

effeithiau economaidd dilynol wedi cael eu hystyried ar y raddfa hon hefyd.

3.3.11 Caiff yr ardaloedd astudiaeth hyn eu dangos yn y ffigur 3-1 isod.

[Mae’r dudalen hon i fod yn wag]

**Ffigur 3-1 Ardaloedd astudiaeth yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg**



[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

3.3.12 Gan fod yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn ystyried effeithiau Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer a Datblygiadau Cysylltiedig, mae ardal dylanwad leol wedi’i defnyddio, sy’n ymestyn i 1km o ganol ffin pob datblygiad unigol, ac sy’n cynnwys cymunedau fel y rhai:

- ger Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, sy’n cynnwys cymuned Llanfaethlu;
- ger neu wrth ymyl priffordd yr A5025, sy’n cynnwys cymunedau’r Fali, Llanfachraeth, Llanfaethlu a Thregele;
- ger Parc Cybi yng Nghaergybi; a
- ger Dalar Hir, sy’n cynnwys cymunedau Bodedern a Llanfihangel-yn-Nhywyn.

3.3.13 Byddai hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yn byw yng Nghampws y Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Felly, wrth ystyried effeithiau’r gweithwyr hynny ar y Gymraeg a’i diwylliant yn y cymunedau ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd, mae cymunedau Tregele, Cemaes, Amlwch, Llanrhuddlad a Llanfaethlu wedi’u cynnwys yn yr asesiad o'r effeithiau, gan mai dyma fyddai’r cymunedau y byddai'r gweithlu adeiladu’n fwyaf tebygol o ymweld â nhw.

### *Datblygu mesurau lliniaru a gwella*

3.3.14 Pan fydd effeithiau niweidiol a manteisiol yn cael eu nodi yn yr asesiad, bydd mesurau i liniaru effeithiau niweidiol ac i wella effeithiau manteisiol yn cael eu cynnig. Edrychwch ar adran 5 y ddogfen hon i gael rhagor o fanylion.

3.3.15 Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i baratoi’r asesiad hwn ar gael yn yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2).

# 4 Effeithiau ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant

4.1.1 Fel rhan o'r asesiad, mae effeithiau tebygol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant wedi'u nodi. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau sydd o fudd i'r Gymraeg a'i diwylliant, yn ogystal â'r rhai a fyddai'n cael effeithiau niweidiol. Pan fo effeithiau wedi'u nodi, mae Horizon wedi datblygu mesurau sy'n ceisio gwella effeithiau manteisiol a lliniaru rhai niweidiol. Cyflwynir y rhain yn adran 5 y ddogfen hon.

## 4.2 Effeithiau manteisiol

### *Cyflogaeth, sgiliau ac addysg*

4.2.1 Disgwylir y bydd y cyfleoedd cyflogaeth sylweddol a fydd yn cael eu cynnig yn ystod y cam adeiladu yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael prif ardal yr astudiaeth, gan arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant. Byddai hyn yn helpu i gadw pobl ifanc leol, gyda nifer ohonynt yn siarad Cymraeg (mae 31.9% o'r rhai o dan 25 oed yn siarad Cymraeg), ac yn cyfrannu at wyrdroi patrwm tymor hir, sef pobl yn y grŵp oed hwn yn gadael yr ardal.

4.2.2 Ystyrir bod y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y cam adeiladu yn arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant. Mae tua hanner (48.1%) y gweithlu adeiladu lleol yn siarad Cymraeg. Felly, disgwylir y bydd nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg yn cael gwaith drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu. Disgwylir y bydd o leiaf 2,000 o weithwyr lleol yn cael eu cyflogi pan fydd y cam adeiladu yn ei anterth. Er mai swyddi dros dro fyddai'r rhain (yn ystod y cyfnod adeiladu a fydd yn para naw mlynedd), mae'n ffynhonnell gyflogaeth bwysig i bobl leol. Byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn creu cyfleoedd sylweddol am brentisiaethau (mae cynllun ar waith ar hyn o bryd ar gyfer prentisiaethau technegol sy'n ymwneud â Gweithrediadau a bydd prentisiaethau yn y crefftau adeiladu yn dod i rym yn ystod y cam adeiladu). Oherwydd maint a hyd Prosiect DCO Wylfa Newydd, byddai'r posibilrwydd o gael prentisiaeth ac yna ennill cyflogaeth yn sylweddol.

4.2.3 Byddai'r cyfleoedd gwaith parhaol o ansawdd uchel a fyddai'n cael eu cynnig yn ystod y cam gweithredu yn arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth, oherwydd disgwylir byddai tua 85% o weithlu'r (mae 61.0% o'r boblogaeth honno'n siarad Cymraeg). Credir bod cyfleoedd cyflogaeth yn elfen bwysig o gynnal a chryfhau cymunedau ac felly statws a defnydd y Gymraeg a'i diwylliant.

### *Nodweddion y boblogaeth*

4.2.4 Fel y nodir uchod, mae potensial i gael cyfleoedd cyflogaeth sylweddol drwy Brosiect DCO Wylfa Newydd, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o swyddi yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Byddai hyn yn cadw pobl ifanc oed gweithio ym mhrif ardal yr astudiaeth ac yn denu rhai newydd hefyd. Gan fod poblogaeth sy'n heneiddio ym mhrif ardal yr astudiaeth, mae hyn yn debygol o adfer cydbwysedd y strwythur oedran a byddai'n debygol o arwain at fwy o

amrywiaeth economaidd, a fyddai o fudd i’r Gymraeg a'i diwylliant o ran cadw pobl leol, lle mae canran uchel ohonynt yn siarad Cymraeg.

4.2.5 Byddai disgwyl i’r cyfleoedd cyflogaeth a fydd yn cael eu cynnig yn ystod y camau adeiladu a gweithredu leihau patrymau’r gorffennol sef pobl ifanc a phobl oed gweithio yn symud o Ynys Môn a phrif ardal yr astudiaeth, gan arwain at effaith fanteisiol ganolig ar y Gymraeg a’i diwylliant.

### *Buddsoddi a gwario yn yr economi leol*

4.2.6 Byddai Prosiect DCO Wylfa Newydd yn arwain at fanteision mawr i fusnesau lleol, gan gynnwys yn y sector twristiaeth, yn arbennig yn ystod y cam adeiladu. Byddai’n cael effaith fanteisiol gyffredinol ar fusnesau lleol hefyd, gan gynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith. Byddai’r rhain yn cyfrannu at gynnal a chryfhau economi ffyniannus.

4.2.7 Mae gwariant ychwanegol yn yr economi leol, yn arbennig o ganlyniad i’r cam adeiladu, yn effaith fanteisiol ar fusnesau lleol gogledd Cymru, ac mae Siarter a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi ar waith i gefnogi hyn. Gan fod canran uchel o boblogaeth Ynys Môn, prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn siaradwyr Cymraeg, byddai hyn yn cael effaith fanteisiol ar fusnesau siaradwyr Cymraeg neu fusnesau sy’n darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyrir mai galwedigaethau uchel eu gwerth yw’r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Byddai’r rhain yn cyfrannu at gynyddu enillion cyfartalog trigolion lleol Ynys Môn yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, gan fod disgwyl i 85% o weithlu’r cam gweithredu fod yn byw yn Ynys Môn.

4.2.8 Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd rhai busnesau lleol yn gweld dadleoli llafur yn lleol o ganlyniad i’r cyfleoedd cyflogaeth newydd a ddaw yn sgil y cam adeiladu.

### *Gwasanaethau cymunedol a lleol*

4.2.9 Byddai mwy o alw am gyfleusterau cymunedol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu yn fanteisiol o ran diogelu'r gwasanaethau a’r cyfleusterau lleol sy’n cael eu darparu. Gan fod y rhain yn fannau ymgynnull cymdeithasol lle mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio bob dydd, mae diogelu’r rhain yn golygu diogelu’r cyfleoedd cymdeithasol a’r cyfleoedd o ddydd i ddydd lle byddai'r Gymraeg yn cael ei siarad. Mae diogelu gwasanaethau o’r fath sy’n cael eu darparu hefyd yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy lle mae’r Gymraeg a’i diwylliant yn rhan o wead cymdeithasol y cymunedau.

### *Agweddau cymdeithasol a diwylliannol*

4.2.10 Byddai’r cyfleoedd cyflogaeth sy’n cael eu cynnig i’r boblogaeth leol yn ystod y cam adeiladu yn cyfrannu at gadw pobl ifanc rhag gadael prif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys y rhai hynny sy’n weithgar mewn grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/gweithgaredd. Credir bod cadw pobl ifanc leol, gyda chanran uchel ohonynt yn siarad Cymraeg, o fudd i grwpiau ieuenctid,

gwirfoddol a gweithgaredd lleol, gan fod hynny’n diogelu dyfodol grwpiau o’r fath.

## 4.3 Effeithiau niweidiol

### *Y gweithlu adeiladu*

4.3.1 Byddai cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y cam adeiladu, o ganlyniad i hyd at 7,500 o weithwyr yn mewnfudo o’r tu allan i’r ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu), gyda rhai ohonynt yn dod â’u teuluoedd gyda nhw, yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth. Byddai disgwyl i lefel yr effaith fod yn uwch yng ngogledd Ynys Môn, yn arbennig yn wardiau Llanbadrig a Mechell.

4.3.2 Byddai cael hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yn byw yng Nghampws y Safle yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol posibl ar amlygrwydd y Gymraeg a’r defnydd a wneir ohoni yn y cymunedau ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys Tregele, Cemaes, Amlwch, Llanfachraeth a Llanfaethlu.

4.3.3 Byddai presenoldeb hyd at 3,000 o weithwyr mewn cymunedau ledled prif ardal yr astudiaeth yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol posibl ar amlygrwydd y Gymraeg a’r defnydd a wneir ohoni mewn nifer o gymunedau, yn arbennig yn y wardiau yng Ngogledd Môn, fel Llanbadrig, Llanfaethlu, Mechell a Moelfre yn ogystal ag ward Llanbedrgoch yn Ne Ynys Môn. Yn y cymunedau yn y wardiau hyn y byddai gweithwyr adeiladu a’u teuluoedd na fyddant yn byw gartref yn aros.

4.3.4 Byddai presenoldeb gweithwyr adeiladu sy’n aros yng Nghampws y Safle hefyd yn cael effaith niweidiol ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg a’i diwylliant a’u hamlygrwydd yn wardiau Llanbadrig, Mechell a Llanfaethlu.

4.3.5 Efallai na fydd gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a’u teuluoedd sy’n symud i’r ardal yn llwyr werthfawrogi nac yn deall diwylliant a thraddodiadau unigryw y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, a allai arwain at densiynau cymdeithasol.

### *Busnesau lleol*

4.3.6 Efallai y bydd rhai busnesau twristiaeth yn gweld rhywfaint o effeithiau niweidiol o ganlyniad i’r posibilrwydd o ailddosbarthu ymwelwyr o ogledd Ynys Môn yn ystod y cyfnod adeiladu, oherwydd newidiadau i ansawdd amgylcheddol yr amwynderau. Disgwylir i effeithiau niweidiol ar fusnesau lleol gael effaith ddilynol ar y Gymraeg a’i diwylliant oherwydd yr effaith niweidiol ar ran benodol o'r economi leol. Fodd bynnag, byddai rhai busnesau twristiaeth yn gweld newid yn y ffynhonnell o wariant (o ymwelwyr i weithwyr adeiladu).

4.3.7 Mae disgwyl i’r Newidiadau i Briffordd yr A5025 arwain at rai effeithiau niweidiol bach iawn ar fusnesau lleol ar hyd yr A5025, oherwydd gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid a fyddai’n pasio. Gallent hefyd effeithio ar lwyddiant busnes dwy fferm yn y dyfodol, oherwydd colli tir amaethyddol sy’n rhan o'r

daliad amaethyddol. Byddai effeithiau o'r fath yn cael effeithiau anuniongyrchol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

### *Prisiau tai*

4.3.8 Byddai'r llety sydd ar gael (yn ôl gwaith dadansoddi economaidd-gymdeithasol) yn awgrymu y byddai digon o le ym mhrif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu i fodloni'r galw am lety gan weithwyr adeiladu a fyddai'n symud i'r ardal. Fodd bynnag, gan fod fforddiadwyedd tai yn broblem yn barod ar Ynys Môn, gallai'r cynnydd yn y galw am lety yng Ngogledd a Gorllewin Ynys Môn arwain at godi pris llety eto fyth, gan wneud problem sy'n bodoli'n barod yn waeth, yn arbennig yn y sector rhentu preifat. Gan fod 57.2% o boblogaeth bresennol Ynys Môn yn siaradwyr Cymraeg, byddai cynnydd ym mhris llety'n effeithio ar allu'r boblogaeth leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, i ddal ati i fyw yn lleol.

### *Cyflenwad seilwaith ac addysg*

4.3.9 Wrth gyflwyno plant gweithwyr adeiladu i ysgolion cyfrwng Cymraeg, byddai disgwyl gweld newid o ran cydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Heb fesurau lliniaru, gallai hynny gael effaith niweidiol ar statws ac amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ymhlith plant oedran ysgol.

4.3.10 Yn ystod y cam gweithredu, ni fyddai disgwyl i gyfanswm nifer y plant oedran ysgol a'u dosbarthiad drwy is-ardaloedd prif ardal yr astudiaeth gael effeithiau amlwg ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ymysg plant oed cynradd ac uwchradd ym mhrif ardal yr astudiaeth.

4.3.11 Disgwylir y bydd presenoldeb hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yng Nghampws y Safle yn arwain at rywfaint o gynnydd yn y galw am gyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau'r Ardal Dylanwad Leol. Fodd bynnag, ni fyddai gweithwyr yn dibynnu ar y gymuned i gael gafael ar wasanaethau o'r fath oherwydd byddai darpariaeth helaeth ar gael yng Nghampws y Safle. Byddai'r cynnydd yn y galw o fudd i gymunedau'r Ardal Dylanwad Leol oherwydd y byddai'n cyfrannu at ddiogelu cyfleusterau cymunedol a fyddai'n cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy, lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso'r effaith fanteisiol hon yn erbyn yr effaith niweidiol a fyddai'n codi o ganlyniad i bresenoldeb gweithwyr adeiladu, a fyddai'n ddi-Gymraeg yn bennaf, mewn gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, a allai leihau amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd a wneir ohoni.

### *Agweddau cymdeithasol a diwylliannol*

4.3.12 Gallai cyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd i gymunedau gael effaith niweidiol ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni yn y cymunedau, yn arbennig yn ystod y cam adeiladu, oherwydd nifer y gweithwyr na fyddent yn byw gartref a'u teuluoedd a fyddai'n adleoli i brif ardal yr astudiaeth.

4.3.13 Er y gallai rhwydweithiau cymdeithasol cryf ar Ynys Môn wella gallu'r boblogaeth i wrthsefyll newidiadau i'r gymuned, yn arbennig yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae gwaith arolwg cymunedol (sy'n cyflwyno tystiolaeth ar gyfer asesu materion goddrychol sy'n ymwneud â Phrosiect DCO Wylfa Newydd) yn dangos bod rhywfaint o amwysedd neu ansicrwydd ymhlith y boblogaeth. Mae hyn yn awgrymu pryder posibl ymhlith y boblogaeth bresennol ynghylch y mewnlif o weithwyr adeiladu o'r tu allan i'r ardal yn symud i gymunedau prif ardal yr astudiaeth.

4.3.14 Mae posibilrwydd y bydd nifer y gweithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd y disgwylir iddynt symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu, yn gwanhau diwylliant a thraddodiadau presennol y Gymraeg, yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gymuned.

4.3.15 Mae posibilrwydd y bydd presenoldeb gweithwyr adeiladu yn y cymunedau ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd, yn defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ac yn ymwneud â'r gymuned, yn gwanhau ac yn lleihau amlygrwydd traddodiadau a diwylliant Cymru.

4.3.16 Byddai gwaith adeiladu Ardal Datblygu Wylfa Newydd, oherwydd y gweithgareddau adeiladu a fyddai'n rhan o'r gwaith, hefyd yn effeithio ar ddealltwriaeth o draddodiadau a diwylliant y Gymraeg o bosibl oherwydd effeithiau uniongyrchol ar olion archeolegol, adeiladau hanesyddol a thirweddau hanesyddol. Mae gan enwau lleoedd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd gysylltiadau topograffigol neu maent yn disgrifio nodweddion y dirwedd, neu maent hefyd yn gysylltiedig â phobl neu â swyddogaeth. Gyda rhai enwau lleoedd, er bod yr enw wedi'i warchod yn y dirwedd, byddai unrhyw gysylltiadau wedi mynd yn angof neu wedi diflannu.

4.3.17 Byddai disgwyl i gyflwyno gweithwyr di-Gymraeg a'u teuluoedd i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/cymunedol cyfrwng Cymraeg, yn arbennig yn ystod y cam adeiladu, wanhau'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y grwpiau hynny.

### *Amwynder amgylcheddol*

4.3.18 Byddai disgwyl i'r gweithgareddau yn ystod cam adeiladu Ardal Datblygu Wylfa Newydd arwain at ddirywiad yn ansawdd amgylcheddol ardal dylanwad leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd, a allai arwain at bobl leol yn gadael yr ardal, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Petai pobl yn gadael yr ardal o ganlyniad i ddirywiad yn ansawdd yr amwynder amgylcheddol, byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn ardal dylanwad leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd, yn arbennig yn wardiau Llanbadrig a Mechell. Gallai'r cam gweithredu effeithio ar ansawdd amgylcheddol amwynder ardal dylanwad leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Er y gallai hyn wneud ardal dylanwad leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn lle llai dymunol i fyw ynddo, nid yw'r cysyniad o Orsaf Bŵer yn un newydd o ystyried presenoldeb yr Orsaf Bŵer Bresennol ers dechrau'r 1970au. Byddai'r Orsaf Bŵer yn gysyniad cyfarwydd yn ardal dylanwad leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar ôl y cam adeiladu hefyd. Gan fod allfudo'n annhebygol o ddigwydd yn ystod y cam gweithredu, ni ddisgwylir y bydd effaith sylweddol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Wrth ystyried y camau adeiladu a gweithredu, nodir effaith niweidiol gyffredinol.

# 5 Mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant

5.1.1 Mae Horizon yn cydnabod pwysigrwydd datblygu mesurau lliniaru a gwella er mwyn ymateb i effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymraeg. Fe wnaeth Horizon benodi arbenigwyr cynllunio iaith a wnaeth gyfraniad arbenigol yn ymwneud â chynllunio ar gyfer y Gymraeg a mentrau Cymraeg er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r mesurau lliniaru a gwella. Mae'r arbenigwyr cynllunio iaith hefyd wedi gweithio gyda Horizon i ddatblygu Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, sy'n mynd law yn llaw â pholisi Iaith Gymraeg Horizon.

5.1.2 Mae'r mesurau a gyflwynir yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol o ran y Gymraeg, gan gynnwys aelodau ac arsylwyr Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg wedi'i datblygu ar sail cyfuniad o weithdai i randdeiliaid, ymgyngoriadau un-i-un ac adolygiadau o lenyddiaeth a dogfennau perthnasol.

5.1.3 Mae'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn dilyn pedair thema allweddol:

- gweithlu;
- plant a phobl ifanc;
- y gymuned; ac
- atebolrwydd.

5.1.4 Er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd, bydd Horizon yn penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.

## 5.2 Effeithiau manteisiol

5.2.1 Mae effeithiau manteisiol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn cael eu crynhoi yn adran 4 y ddogfen hon. Er mwyn gwella'r effeithiau manteisiol, mae mesurau wedi cael eu datblygu, ac mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod.

5.2.2 Mae Tabl 5-1, Tabl 5-2 a Tabl 5-3 yn crynhoi'r mesurau lliniaru a gwella sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Maent hefyd yn nodi i ba effaith y mae pob mesur yn berthnasol iddi, gan gynnwys manylion ynghylch sut byddant yn cael eu sicrhau.

5.2.3 Mae'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cyflwyno mesurau sy'n cael eu sicrhau drwy gyfrwng rhwymedigaethau o dan Adran 106 (cytundebau cyfreithiol), gofyniad y DCO, y Cod Ymarfer Adeiladu (Cyfeirnod y Cais: 8.6) a'r Cod Ymarfer Gweithredu (Cyfeirnod y Cais: 8.13) yn ogystal â mesurau sy'n rhan o'r Pecyn o Fanteision

Cymunedol. Mae'r mesurau lliniaru a gwella ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd wedi'u datblygu gyda'r bwriad o alluogi Horizon i gyflawni'r Addewid Iaith Gymraeg yn ogystal ag effeithiau lliniaru a gwella sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hwn. Mae'r sail resymegol dros bob un o'r mesurau'n cael eu hamlinellu yn fwy manwl yn adran 4 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.

### *Ymrwymiadau o ran gwella*

#### Y Gweithlu

5.2.4 Byddai Horizon yn ceisio gwella'r effeithiau manteisiol posibl a ddaw yn sgil y gweithlu adeiladu a gweithredu drwy wneud y canlynol:

penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd;

- parhau i ddosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn Wylfa Newydd i bobl ifanc a chymunedau lleol yn rheolaidd, gan gynnwys Mapiau Llwybrau Gyrfa dwyieithog Wylfa Newydd a Phroffiliau Swyddi. Bydd Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl er mwyn hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y gymuned. Bydd cyflenwyr lleol a staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) yn ymwneud â hyn ac yn arwain ar hyn. Bydd staff a chontractwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac adnoddau 'model rôl' amrywiol, fel fideos o astudiaethau achos, deunyddiau ysgrifenedig, cyflwyniadau mewn ysgolion;
- fel rhan o'i strategaeth recriwtio, sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu yn Wylfa Newydd. Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar fframwaith cymwyseddau ac adnoddau asesu sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael eu datblygu gan Horizon. Bydd lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn cael eu cofnodi fel rhan o'r broses recriwtio ac yn cael eu cynnwys ym mhroffil y swydd;
- sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg fel bod modd asesu sgiliau iaith yr ymgeisydd yn iawn;

- dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant i'r contractwyr ac i'r holl bersonél, fel rhan o'r deunyddiau recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg;
- darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o Bolisi Iaith Gymraeg corfforaethol Horizon;
- datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd. Byddai Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr ac yn cynnal eu cynllun 'bathodynnau oren' siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac er mwyn annog pobl i'w defnyddio;
- diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol i gynnwys manylion ynghylch pa fath o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog; ac
- arddangos arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro cwbl ddwyieithog sy'n ymwneud â Phrosiect DCO Wylfa Newydd.

### Buddsoddi a gwario yn yr economi leol

5.2.5 Byddai Horizon yn ceisio gwella'r effeithiau manteisiol posibl sy'n ymwneud â'r economi, y Gymraeg a'i diwylliant drwy wneud y canlynol:

- ystyried y Gymraeg fel rhan o'r broses gaffael;
- darparu gwybodaeth am fusnesau lleol i gontractwyr drwy'r gadwyn gyflenwi;
- fel rhan o'i strategaeth recriwtio, sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nod y Strategaeth Swyddi a Sgiliau, a'r elfen Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd yn benodol, fyddai:
  - recriwtio gweithwyr newydd yn y farchnad lafur;
  - hyfforddi a gwella sgiliau newydd-ddyfodiaid ac eraill; a
  - darparu gwasanaeth broceriaeth i gefnogi busnesau y mae eu gweithwyr wedi symud ymlaen i Brosiect DCO Wylfa Newydd.

#### Plant a phobl ifanc

5.2.6 Byddai Horizon yn ceisio gwella'r effeithiau manteisiol posibl sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd drwy wneud y canlynol:

- parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysg dwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr addysg bellach (ee drwy ddarparu deunyddiau dosbarth a chyflwyniadau); a
- cynnal cynllun prentisiaethau Prosiect DCO Wylfa Newydd a pharhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' neu gynllun cyfatebol, i bobl ifanc.

## 5.3 Effeithiau niweidiol

5.3.1 Mae effeithiau niweidiol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn cael eu crynhoi yn adran 4 y ddogfen hon. Er mwyn lliniaru'r effeithiau niweidiol, mae mesurau wedi cael eu datblygu, ac mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod.

5.3.2 Mae Tabl 5-1, Tabl 5-2 a Tabl 5-3 yn crynhoi'r mesurau lliniaru a gwella sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Maent hefyd yn nodi i ba effaith y mae pob mesur yn berthnasol iddi, gan gynnwys manylion ynghylch sut byddant yn cael eu sicrhau.

### *Ymrwymiadau o ran lliniaru*

#### Y Gweithlu

5.3.3 Byddai Horizon yn ceisio lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl yng nghyswllt y gweithlu adeiladu a gweithredu drwy wneud y canlynol:

- penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd;
- darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff adeiladu a gweithredu er mwyn dangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o Bolisi Iaith Gymraeg corfforaethol Horizon;
- datblygu a chylchredeg pecynnau croeso i holl deuluoedd gweithwyr Prosiect DCO Wylfa Newydd sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys gwybodaeth am statws yr iaith a'i defnydd mewn gwasanaethau addysg lleol ac yn y gymuned ehangach;
- casglu gwybodaeth am bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr adeiladu a gweithredu a rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu

hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a’r blynyddoedd cynnar. Gall y broses hon fod yn gysylltiedig â’r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sy’n cael ei ddatblygu i helpu i fonitro’r mewnlif o weithwyr a’u teuluoedd.

### Plant a phobl ifanc

5.3.4 Byddai Horizon yn ceisio lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl drwy wneud y canlynol:

- darparu cyllid i wasanaethau addysg lleol sy’n cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (gwasanaethau trochi iaith). Bydd lefel y cymorth ar gyfer y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â’u teuluoedd gyda nhw.

### Gwasanaethau cymunedol a lleol

5.3.5 Byddai Horizon yn ceisio lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl drwy wneud y canlynol:

- ariannu’r gwasanaethau iaith cymunedol a fydd yn cael eu darparu (gan gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol) i gefnogi newydd-ddyfodiaid i integreiddio a datblygu’r gallu i siarad Cymraeg yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddog Cynnwys y Gymuned;
- hwyluso a chymryd rhan mewn trafodaeth barhaus â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin a Menter Iaith Môn i drafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a lliniaru’r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru’r effaith hon. Bydd Horizon yn monitro nifer y gweithwyr sy’n dod â’u teuluoedd gyda nhw, gan gynnwys plant oed cyn ysgol, a hynny’n barhaus. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ganfod pa fesurau lliniaru priodol sydd eu hangen i liniaru’r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg; a
- helpu i ariannu gwasanaethau cyfieithu cymunedol (pan fo hynny’n berthnasol i Wylfa Newydd Horizon) i alluogi mudiadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer grwpiau cymunedol.

### Prisiau tai

5.3.6 Byddai Horizon yn ceisio lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl drwy wneud y canlynol:

- sefydlu Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr Wylfa Newydd. Byddai'r gwasanaeth hwn a’i grŵp goruchwylio (a fyddai’n cynnwys awdurdodau lleol) yn ffordd o fonitro effeithiau Prosiect DCO Wylfa

Newydd ar y cyflenwad a'r galw am lety a thai o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr adeiladu na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd.

### Amwynder amgylcheddol

5.3.7 Mae effeithiau niweidiol ar amwynder amgylcheddol, ac yn anuniongyrchol felly ar y Gymraeg a'i diwylliant, yn ymwneud â sŵn, ansawdd aer, y dirwedd ac effaith weledol, ac mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â'r rhain yn cael eu cyflwyno yn y Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y DCO. Ystyrir nad oes angen mesurau lliniaru sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg a'i diwylliant.

## 5.4 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella

5.4.1 Mae Tabl 5-1, Tabl 5-2 a Tabl 5-3 yn crynhoi'r mesurau lliniaru a gwella sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Maent hefyd yn nodi i ba effaith y mae pob mesur yn berthnasol iddi.

**Tabl 5-1 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â'r gweithlu**

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mesur gwella - mae angen cydlynu'r mesurau yn y strategaeth gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant | 1-4, 7, 9-11, 13, 15-18 | Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd. | Adnoddau Dynol Horizon | Horizon - Hyfforddiant / Dysgu a Datblygu | Cyn adeiladu | Cytundeb Adran 106 |
| 2 | Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn ystyried ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ystod Prosiect DCO Wylfa Newydd | 3, 9-11 | Bydd Horizon yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu. Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar fframwaith cymwyseddau ac adnoddau asesu | Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant | Rheolwyr Recriwtio a chymorth allanol o bosibl; Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg | Cyn adeiladu | Cytundeb Adran 106 (disgrifiadau swyddi adeiladu a gweithredu) |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael eu datblygu gan Horizon. Bydd lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn cael eu cofnodi fel rhan o'r broses recriwtio ac yn cael eu cynnwys ym mhroffil y swydd | | | | |
| 3 | Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn ystyried ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ystod Prosiect DCO Wylfa Newydd | 3, 9-11 | Bydd Horizon yn sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg fel bod modd asesu sgiliau iaith yr ymgeisydd yn iawn. | Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant | Siaradwyr Cymraeg allanol o bosibl | Cyn adeiladu a chyn gweithredu | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn yr Orsaf Bŵer | 3, 9-11 | Bydd Horizon yn parhau i ddosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn yr Orsaf Bŵer i bobl ifanc a chymunedau lleol yn rheolaidd, gan gynnwys 'Mapiau Llwybrau Gyrfa' Wylfa Newydd a Phroffiliau Swyddi dwyieithog. Bydd Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl er mwyn hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y gymuned. Bydd cyflenwyr lleol a staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) yn ymwneud â hyn ac yn | Tîm Addysg Horizon | Cyngor Sir Ynys Môn | Adeiladu; parhaus | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | arwain ar hyn. Bydd staff a chontractwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac adnoddau ‘model rôl’ amrywiol, fel fideos o astudiaethau achos, deunyddiau ysgrifenedig, cyflwyniadau mewn ysgolion. | | | | |
| 5 | Mesur gwella - cynyddu’r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn yr Orsaf Bŵer | 3, 9-11 | Fel rhan o’i strategaeth recriwtio, bydd Horizon yn sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid | Adnoddau Dynol Horizon a Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant | Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd; Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Llywodraeth Cymru; Adran | Adeiladu; parhaus | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | eraill lleol a chenedlaethol sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. | | Gwaith a Phensiynau; Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg; Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn; Gyrfa Cymru | | |
| 6 | Mesur gwella - dangos ymrwymiad Horizon i'r Gymraeg a'i diwylliant a gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg yn yr Orsaf Bŵer | 3, 9-11 | Diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol i gynnwys manylion ynghylch pa fath o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog. | Pennaeth Datblygu Strategol (Cymru) Horizon; | Adnoddau Dynol Horizon a'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant | Cyn adeiladu | Cytundeb Adran 106 |
| 7 | Mesur gwella - dangos ymrwymiad Horizon i'r Gymraeg a'i diwylliant a gwneud y Gymraeg | 3 | Bydd arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro sy'n gysylltiedig â Phrosiect | Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon | Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon, contractwyr | Adeiladu; gweithredu | Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (Cyfeirnod |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn fwy amlwg yn yr Orsaf Bŵer | | DCO Wylfa Newydd yn ddwyieithog. | | | | Dogfen y Cais 8.6)<br>Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd (Cyfeirnod Dogfen y Cais 8.13) |
| 8 | Mesur gwella - sicrhau bod Horizon yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg y gweithlu | 3, 9-11 | Bydd Horizon yn datblygu ac yn mabwysiadu fframwaith cymwyseddau sgiliau iaith Gymraeg ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer prosesau recriwtio. Bydd Horizon yn hyfforddi rheolwyr recriwtio perthnasol i ddefnyddio adnoddau er mwyn pennu | Adnoddau Dynol Horizon / Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a/i Diwylliant | Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg | Cyn adeiladu; parhaus | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | gofynion iaith y swyddi adeiladu a gweithredu. | | | | |
| 9 | Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth a sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r Gymraeg a'i diwylliant wrth wneud cais am swyddi yn yr Orsaf Bŵer. Hefyd, mae angen gwella’r effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y bydd Horizon yn gwerthfawrogi eu sgiliau ieithyddol. | 1-4, 7, 16-18 | Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a’i diwylliant i’r contractwyr ac i’r holl bersonél, fel rhan o'r deunyddiau recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy’n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg. | Adnoddau Dynol Horizon; Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant | Rheolwyr Recriwtio Horizon; y Gadwyn Gyflenwi a Masnachol; Llywodraeth Cymru; Cyngor Sir Ynys Môn; Contractwr Menter Newydd; Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg | Cyn adeiladu | Cytundeb Adran 106, Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod Dogfen y Cais 8.5) |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Mae angen sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o sefyllfa’r Gymraeg a’i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth ac am bolisi iaith Gymraeg Horizon. | 1-4, 7-11, 16-18 | Bydd Horizon yn cynnwys gofynion o ran gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod rhwng contractwyr. Bydd Horizon yn darparu gwybodaeth am ei gapasiti iaith Gymraeg, Polisi Iaith Gymraeg Horizon a’i rwymedigaethau, a sut bydd contractwyr yn dilyn Polisi Iaith Gymraeg Horizon (hy drwy’r prosesau recriwtio a'r cyfathrebu mewnol ac allanol). | Horizon Tîm Cadwyn Gyflenwi a'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a’i Diwylliant | Menter Newydd | Cyn adeiladu; parhaus | Cytundeb Adran 106 |
| 11 | Mesur gwella - cynyddu’r cyfleoedd i gwmnïau lleol (sy’n fwy tebygol o gyflogi siaradwyr Cymraeg) | 1-4, 8-11 | Bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn cael gwybodaeth am | Tîm Cadwyn Gyflenwi Horizon | Menter Newydd Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd | Cyn adeiladu | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gystadlu am waith yn yr Orsaf Bŵer. | | gyflenwyr lleol, ac yn cael eu hannog i’w defnyddio. Bydd contractwyr yn cael y gronfa ddata fusnes sy’n cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. | | Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | | |
| 12 | Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth a sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r Gymraeg a'i diwylliant. Hefyd, mae angen gwella’r effeithiau cadarnhaol ar | 1-4, 7, 9-11, 16-18 | Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i’r holl staff adeiladu a gweithredu ac yn gofyn i’r staff ddangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Bydd Horizon hefyd yn | Horizon - Hyfforddiant / Dysgu a Datblygu a Chydlynydd Iaith Gymraeg a’i Diwylliant Horizon | Grŵp Llandrillo Menai (y darparwr hyfforddiant y mae Horizon wedi’i benodi); Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg | Adeiladu; parhaus | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyflogaeth drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol y bydd eu sgiliau ieithyddol yn cael eu gwerthfawrogi, a phan fo hynny’n briodol, yn cael eu datblygu. Wrth i nifer y gweithwyr o’r tu allan i brif ardal yr astudiaeth gynyddu, mae angen gwneud siaradwyr Cymraeg yn fwy amlwg, er mwyn annog pobl i ddefnyddio’r iaith yn yr Orsaf Bŵer. | | datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu’r Prosiect pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd. Bydd Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Bydd Horizon yn cadw’r cynllun ‘bathodyn’ ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o’r fath ar waith. Bydd Horizon yn casglu data am sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac yn diweddaru hyn bob | | | | |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | blwyddyn. Bydd Horizon yn annog staff i fanteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant iaith Gymraeg. | | | | |
| 13 | Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg. | 1-4, 13 | Bydd Horizon yn casglu data wedi'i grynhoi a dienw am bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr adeiladu a gweithredu ac yn rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r | Adnoddau Dynol Horizon | Menter Newydd; Cyngor Sir Ynys Môn - i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi | Adeiladu | Cytundeb Adran 106, Strategaeth Rheoli Gweithlu (Cyfeirnod Dogfen y Cais 8.5) |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl cysylltu'r broses hon â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sy'n cael ei ddatblygu. | | | | |

**Tabl 5-2 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd**

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am swyddi yn yr Orsaf Bŵer | 3, 9-11, 13 | Bydd Horizon yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysgol dwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr addysg bellach. | Tîm Addysg Horizon | Adrannau Addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Ysgolion, Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, Fforwm Penaethiaid, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Adeiladu. | Cytundeb Adran 106 |
| 15 | Mesur gwella - cynyddu'r tebygolrwydd o siaradwyr Cymraeg yn gwneud cais am | 3, 9-11, 13 | Bydd Horizon yn cynnal cynllun prentisiaethau Prosiect DCO Wylfa Newydd ac yn parhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' neu | Hyfforddiant Horizon; tîm Addysg Horizon | Darparwyr hyfforddiant (Grŵp Llandrillo Menai) | Cyn adeiladu. | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | swyddi yn yr Orsaf Bŵer | | gynllun cyfatebol, i bobl ifanc | | | | |
| 16 | Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg. | 1-2, 4, 13 | Bydd Horizon yn ariannu gwasanaeth athrawon peripatetig (pro-rata fel y gwelir isod) a fyddai'n cefnogi'r capasiti addysg drochi bresennol ar Ynys Môn (a Gwynedd o bosibl os oes angen) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian ar gael er mwyn i ddau athro trochi iaith fod ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd lefel y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda | Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd | Ysgolion, Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn (grŵp cynrychioliadol sefydliadau iaith Gymraeg), Cyngor Gwynedd | Cyn adeiladu. | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | nhw a bydd yn cynyddu neu’n gostwng yn ôl y galw. Bydd nifer y gweithwyr sy’n dod â’u teuluoedd gyda nhw yn cael ei fonitro drwy gasglu data. (Cyfeirnod Dogfen y Cais 8.14) | | | | |
| 17 | Mae angen lliniaru’r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i’r mewnlif o bartneriaid a dibynyddion (251 o ddibynyddion yn ôl yr amcangyfrif) sy’n dod gyda gweithwyr na fyddant yn byw gartref, o’r tu allan i brif ardal yr astudiaeth. | 1-2, 4, 7, 13, 16-18 | Bydd Horizon yn datblygu ac yn dosbarthu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr Prosiect DCO Wylfa Newydd sy’n symud i brif ardal yr astudiaeth. Bydd y rhain yn ategu’r wybodaeth a geir ym Mhecynnau Croeso arfaethedig Llywodraeth Cymru a byddant yn darparu gwybodaeth am | Cydlynydd Iaith Gymraeg a’i Diwylliant Horizon; Llywodraeth Cymru; Cyngor Sir Ynys Môn | | Adeiladu | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | wasanaethau lleol a'r gymuned. | | | | |

**Tabl 5-3 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud â gwasanaethau cymunedol a lleol**

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | Lliniaru'r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth. | 1-2, 4, 7, 13, 16-18 | Bydd Horizon yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iaith cymunedol (gan gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol) i gefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned a datblygu capasiti yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned. | Horizon | Cyngor Sir Ynys Môn; cynrychiolwyr iaith cymunedol (ee Mentrau Iaith lleol); Cyngor Gwynedd; Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn, Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg | Adeiladu | Cytundeb Adran 106 |
| 19 | Mae angen lliniaru effaith gweithwyr di-Gymraeg yn symud i brif ardal yr astudiaeth ar wasanaethau lleol, yn arbennig addysg a | 1-2, 4, 13, 15 | Bydd Horizon yn ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r | Horizon | Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff | Adeiladu | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwasanaethau blynyddoedd cynnar (ee gofal plant, meithrinfeydd, gwasanaethau cyn ysgol). | | blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn ac yn hwyluso trafodaeth barhaus â nhw er mwyn trafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a’r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru’r effaith hon. Fel rhan o’r drafodaeth hon, bydd Horizon yn monitro nifer y gweithwyr sy’n dod â’u teuluoedd gyda nhw, gan gynnwys plant oed cyn ysgol, a hynny’n barhaus. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ganfod pa fesurau lliniaru priodol sydd eu hangen i liniaru’r | | sy’n cynrychioli’r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn | | |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. | | | | |
| 20 | Lliniaru’r effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i’r mewnlif o weithwyr na fyddant yn byw gartref a’u teuluoedd o’r tu allan i brif ardal yr astudiaeth. | 1-2, 4, 13, 15, 16-18 | Horizon i helpu i ariannu gwasanaethau cyfieithu cymunedol (pan fo hynny’n berthnasol i Wylfa Newydd Horizon) i alluogi mudiadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn helpu grwpiau cymunedol lleol i ymgysylltu’n effeithiol a thrafod materion sy’n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd. Bydd y manylion yn cael eu | Horizon | Cyngor Sir Ynys Môn, Menter Môn | Cyn adeiladu | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | cadarnhau cyn adeiladu. | | | | |

## 5.5 Atebolrwydd ar gyfer mesurau lliniaru a gwella

5.5.1 Roedd y rhanddeiliaid ym maes y Gymraeg a'i diwylliant, yr ymgynghorwyd â nhw wrth ddatblygu'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn 2016 a 2017, yn credu bod datblygu dulliau priodol i oruchwylio rhoi'r Strategaeth honno ar waith yn Horizon, ac ar gyfer monitro cynnydd yn allanol, yn hanfodol. Roedd datblygu'r prosesau hyn yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, a bod camau'n cael eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau a wynebir.

5.5.2 Er mwyn cyflawni hyn, byddai Horizon yn gwneud y canlynol:

- sefydlu grŵp rheoli i fod yn atebol am gyflawni'r Strategaeth yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg corfforaethol Horizon;
- sefydlu a chadeirio (drwy'r Cydlynydd Iaith Gymraeg) grŵp rhanddeiliaid allanol i fonitro'r broses o roi'r Strategaeth ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni; a
- gwerthuso effaith Prosiect Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda'r grŵp monitro allanol yn goruchwylio hynny. Byddai Horizon a'r grŵp monitro allanol yn cytuno ar y cylch gorchwyl, yr amseru a'r fethodoleg benodol, ond gallai gynnwys cam dros dro hanner ffordd drwy'r cyfnod adeiladu a cham terfynol ar ôl y gwaith adeiladu.

5.5.3 Mae crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag atebolrwydd wedi'u nodi yn Tabl 5-4.

[Mae’r dudalen hon i fod yn wag]

**Tabl 5-4 Crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella sy'n ymwneud ag atebolrwydd**

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | Lliniaru a gwella effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant | 1-4, 7, 13, 15-18 | Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli i oruchwylio a bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hon, yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon | Uwch Reolwyr Horizon, Datblygu Strategol Cymru a'r Cydlynydd Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Cyfeirnod Dogfen y Cais 8.14) | Horizon - Adnoddau Dynol, Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu, Cadwyn Gyflenwi, Masnachol - Pennaeth Caffael Strategol | Cyn adeiladu | Cytundeb Adran 106 |
| 22 | Lliniaru a gwella effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant | 1-4, 7, 13, 15-18 | Bydd Horizon yn sefydlu ac yn cadeirio grŵp rhanddeiliaid allanol (Cydlynydd y Gymraeg a'i Diwylliant) i fonitro'r broses o roi'r Strategaeth ar waith a rhoi cyngor | Horizon | Awdurdodau Lleol, Mudiadau cymunedol | Cyn adeiladu | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o’r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ynghylch ei chyflawni | | | | |
| 23 | Mae angen gwerthuso'r Strategaeth hon a gwir effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr iaith Gymraeg. | 1-4, 7, 13, 15-18 | Bydd Horizon yn gwerthuso effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, gyda’r grŵp rhanddeiliad allanol yn goruchwylio hynny | Horizon | Awdurdodau Lleol, Mudiadau cymunedol | Adeiladu | Cytundeb Adran 106 |
| 24 | Lliniaru a gwella effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a’i diwylliant | 1-4, 7, 13, 15-18 | Bydd Horizon yn gweithredu Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant drwy gydol cyfnod adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn monitro | Horizon | Adnoddau Dynol Horizon, Awdurdodau lleol, Mudiadau cymunedol | Adeiladu | Cytundeb Adran 106 |

| Rhif y Mesur | Mater | Cwestiynau perthnasol i'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Disgrifiad o'r mesur | Pwy ddylai arwain ar gyflawni hyn? | Pwy arall ddylai fod yn rhan o gyflawni hyn? | Sbardun | Dull sicrhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ac yn adrodd ar sut mae'n cydymffurfio â'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant bob chwe mis i'r Grŵp Rheoli (a nodir ym mesur 1264) a bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu bob blwyddyn. | | | | |

[Mae’r dudalen hon i fod yn wag]

# 6 Beth nesaf?

6.1.1 Mae cyflwyno’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o’r cais am DCO yn garreg filltir bwysig. Ond, nid dyma fyddai diwedd y gwaith gyda rhanddeiliaid lleol ym maes y Gymraeg a’i diwylliant.

6.1.2 Byddai rhanddeiliaid perthnasol yn cymryd rhan drwy gydol y broses o wneud penderfyniad ynghylch y cais, ac os bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol; drwy gydol camau adeiladu a gweithredu Prosiect DCO Wylfa Newydd.

6.1.3 Y cam nesaf gyda rhanddeiliaid y Gymraeg a’i diwylliant fyddai yn ystod y cyfnod pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y cais am DCO. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai Horizon yn gweithio gyda rhanddeiliaid ym maes y Gymraeg a’i diwylliant a’r prif gontractwr (a fyddai’n adeiladu’r Orsaf Bŵer a chydrannau eraill Prosiect DCO Wylfa Newydd) i gadarnhau pa fanylion ymarferol sydd eu hangen i roi’r mesurau lliniaru a gwella sy’n cael eu disgrifio yn yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar waith (Cyfeirnod y Cais: 8.2).

6.1.4 Byddai rhanddeiliaid ym maes y Gymraeg a’i diwylliant yn cael cymryd rhan yn y gwaith monitro allanol a goruchwylio’r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng Nghyswllt yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant. Byddai sefydlu grŵp rhanddeiliaid allanol, o bosibl drwy ddefnyddio aelodau presennol Grŵp Llywio’r Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a Fforwm Strategol Iaith Gymraeg Ynys Môn, yn ffordd annibynnol o fonitro ac yn sicrhau y byddai'r Strategaeth yn gyson â gweithgareddau sefydliadau partner. Rôl y grŵp yn fras fyddai adolygu cynnydd yn erbyn pob un o'r mesurau yn y Strategaeth a rhoi cyngor ynghylch y mesurau sydd eu hangen i oresgyn unrhyw anawsterau. Tasg bwysig i’r grŵp fyddai datblygu fframwaith atebolrwydd i fonitro’r Strategaeth.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]